# 9. ING YR ARDD

**Darllen:** Marc 14: 27-31

Daeth y dathliad hwn o’r Pasg i ben yn y modd arferol trwy ganu rhai o’r Salmau. Rhaid i Iesu a’i ddisgyblion ymadael â goleuni’r ystafell a mynd allan, fel Jwdas, i dywyllwch peryglus y nos. Cerddodd y cwmni i lawr o Fynydd Seion, heibio tw’r Archoffeiriad a wal y Deml, gan groesi’r afon Cedron a mynd i ardd Gethsemane, ar waelod Mynydd yr Olewydd. Ar y ffordd dywedodd wrthynt, “*Fe dda cwymp i bob yr un ohonoch. Oherwydd y mae’n ysgrifenedig, Trawaf y bugail, a gwasgerir y defaid.*’[9] ‘*Ond wedi i mi gael fy nghyfodi af o’ch blaen i Alilea.’* Daeth atynt eto yn yr Oruwch Ystafell, ef a ddaeth at y gwragedd yn yr ardd, a’r ddeuddyn yn Emaus, ac yn ddiweddarach at y disgyblion ar lan Môr Galilea, i’w porthi, nid yn unig â bara a physgod, ond â bara’r bywyd, gan roi iddynt oll ddechreuad newydd, atgyfodiad neu enedigaeth newydd, a’u danfon allan i’r byd i rannu, nid yn unig y Newyddion Da amdano, ond hefyd bara’r bywyd a gwin y cyfamod newydd. Mae’n bresennol yn awr gyda’i bobl yn ei fyd! ‘*Fy Nhad sy’n rhoi i chwi’r gwir fara o’r nef. Oherwydd bara Duw yw’r hwn sy’n disgyn o’r nef ac yn rhoi bywyd i’r byd... Myfi yw bara’r bywyd. Ni fydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy’n dod ataf fi, ac ni fydd syched byth ar y sawl sy’n credu ynof fi’* (Ioan 6: 32-35). Realiti yn y byd heddiw yw ei groes a’i atgyfodiad. Cawn ddod at y Garddwr a derbyn o ffrwyth Pren y Bywyd.

Unwaith eto, berwodd teimladau Pedr i’r wyneb. ‘*Er iddynt gwympo bob un, ni wnaf i.*’ Ni fedrodd dderbyn rhybudd Iesu iddo ef yn bersonol: “*Yn wir, rwy’n dweud wrthyt y bydd i ti heno, cyn i’r ceiliog ganu ddwywaith, fy ngwadu i deirgwaith.’ Ond taeru gwnaeth yntau’n fwy byth, ‘Petai’n rhaid i mi farw gyda thi, ni’th wadaf byth.’ A’r un modd yr oeddent yn dweud i gyd.’* Esiampl arall o ddafad yn brefu a’r lleill yn dilyn. Druan â Pedr, methodd ag amgyffred yr hyn oedd o flaen Iesu a’r hyn oedd o’i flaen yntau a’r lleill hefyd.

**Gweddi:**

*O Dduw trugarog,*
*maddau i mi fy holl bechodau i’th erbyn*
*ac yn erbyn fy nghyd-ddynion.*

*Ymddiriedaf yn dy ras a chyflwynaf fy mywyd yn llwyr i'th ddwylo.*
*Gwna â mi yn l dy ewyllys ac yn l yr hyn sydd orau i mi.*
*Os byddaf fyw neu farw, byddaf gyda thi,*
*a thithau, fy Nuw, gyda mi.*
*Arglwydd, disgwyliaf am dy iachawdwriaeth ac am dy deyrnas. Amen.*
*(Dietrich Bonhoeffer)*

**Darllen:** Marc 14: 32—42

Gardd breifat oedd Gethsemane. Unwaith eto, y mae'n gwbl eglur i Iesu drefnu ymlaen llaw i gael ddefnyddio'r ardd yn hwyr yn y dydd. Wedi iddo ef a'r disgyblion gyrraedd y fynedfa, fe gymerodd y grup mewnol o dri, sef Simon Pedr, Iago ac Ioan i mewn i'r ardd gydag ef, gan adael y gweddill y tu allan. Wedi iddynt fynd i fewn, dywedodd wrth y tri i aros amdano, gan ychwanegu "*Gweddiwch na ddewch i gael eich profi"* (Luc 22: 40).

Aeth ymlaen ar ei ben ei hun a dechrau gweddïo. 'Dechreuodd deimlo arswyd a thrallod dwys'. Defnyddia gyfieithiadau modern Saesneg, nifer o eiriau gwahanol i geisio cyfleu'r hyn sy'n digwydd - ing, anobaith, cynnwrf, aflonyddwch, braw, arswyd, erchylltod. *'Syrthiodd ar y llawr'.* Beth sydd yma? Dywed milwyr bod pob arwr naill ai yn llwfr neu'n wallgof. Gwyddai beth oedd o'i flaen. Edrychodd i safn angau. '*Agonia'* yw'r gair Groeg am ing! Beth yw'r ing hwn? Beth sy'n achosi'r terfysg mewnol? '*Ymgodymu y mae â marwolaeth'*, medd Martin Luther. Cerdded yr oedd yng 'nglyn y cysgodion', 'glyn cysgod angau'. Rhaid i'r dyn sensitif hwn edrych ar holl greulondeb, trais, barbariaeth a chasineb y byd – yr hyn a wna pobl i'w gilydd yn enw egwyddor ac yn enw Duw, yr hyn a wnânt i'r diniwed ac i'w hunain, yr hyn a wnânt i Dduw. Rhaid i 'Arglwydd Bywyd' ddisgyn i waelodion y cyfan oll o bechod a diraddiad dynol. 'Prynodd Crist ryddid i ni oddi wrth felltith y Gyfraith pan ddaeth, er eich mwyn chwi, yn wrthych melltith, oherwydd y mae yn ysgrifenedig, '*Melltith ar bawb a grogir ar bren*' (Gal. 3: 13). Rhaid i'r dibechod hwn gerdded ffordd canlyniadau holl bechod y byd a dioddef yr arwahanrwydd difrodus sy'n ganlyniad i'r awydd dynol i roi 'Hunan' yn gyntaf, sef cael ein gadael ar ein pen ein hunain gyda chwmni'r 'Hunan' a neb arall; arwahanrwydd oddi wrth Dduw a methu ymdeimlo â'i bresenoldeb. Cyfrifoldeb Iesu oedd cyflawni dameg Y Winllan a'r Tenantiaid (Marc 12: 1-12). Yn ei gariad sanctaidd

fe ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd ond penderfynodd dynion anwir osod eu dwylo arno ef, eu Harglwydd, gan ei gam-drin a'i ladd. Ffordd hunan-ddistryw oedd hon i bawb ohonynt. Llenwyd ef ag arswyd wrth iddo feddwl am y niwed yr oeddent yn ei wneud iddynt eu hunain. Teirgwaith y gofynnodd am ffordd arall i'w cherddded. Ond pan na chafodd un, mynegodd ei barodrwydd i rodio ffordd dioddefaint '*erom ni ddynion ac er ein hiachawdwriaeth*.' '*Pontir y gagendor rhwng dyn a Duw nid trwy lwyddiannau dyn ond trwy ddarostyngiad Duw*,'[10] oedd ymateb William Temple i'r stori hon. '*Ond y mae gwendid Duw yn gryfach na chryfder dynol'* (1 Corinthiaid 1: 25). Ym mrwydr ac ing yr Ardd, fe goncrodd Iesu ei ddyndod ei hun. Enillodd yr ymdrech fwyaf ar ei liniau. Cododd i'w draed mewn tangnefedd a hyder, wedi paratoi ei hun i wynebu'r brwydrau oedd i ddod i'w ran. Cymerodd i'w ddwylo groes pechod y byd er iachawdwriaeth y byd, a'i dangnefedd, a'i undod, a'i fywyd. Disgrifiodd John Calfin awr Gethsemane fel '*disgyniad ein Harglwydd i uffern'*. Aeth trwy uffern, '*i'r adfyd hwn er mwyn i mi beidio â marw'*.

Mae gan Sidney Carter gerdd sy'n rhoi geiriau ar wefus y lleidr edifeiriol wrth iddo sôn am ei ymgom â Iesu ar Galfaria: ''*Duw y dylent ei groeshoelio, yn dy le di a minnau,' dyna beth a ddywedais wrth y Saer yn hongian ar y pren'*.[11] 'Onid peth peryglus yw'r duedd gan ambell i ddiwinyddiaeth am y Groes i rannu undod sylfaenol Duw? '*Ond gwaith Duw yw'r cyfan…. Hynny yw, yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb ddal neb yn gyfrifol am ei droseddau, ac y mae wedi ymddiried i ni neges y cymod*' (2 Corinthiaid 5: 18-19). Pren marwolaeth oedd y Groes i Grist; ond pren y bywyd i ni; ei ffrwyth yn sur iawn ar y pren ond yn felys iawn i'r rhai sy'n cael ei brofi.

Wrth iddo ddod yn I at y tri disgybl am y trydydd tro, cafodd hwy yn dal i gysgu. Galwodd arnynt i godi ar eu traed! Yr oedd awr bradychu Mab y Dyn wedi cyrraedd. Rhaid iddynt fod yn effro i weld a chlywed, i gofio a dweud.

**Gweddi:**

*O Waredwr y byd, yng Ngethsemane*
*fe dderbyniaist y cwpan chwerw mewn ufudd-dod i ewyllys y Tad.*
*Edrych mewn trugaredd ar ein bywydau gwan ac ystyfnig.*
*Dyro i ni nerth a dewrder fel y rhodiwn yn ddi-ofn*
*ar lwybr dyletswydd gariadlon,*
*gan ddilyn yn wastad batrwm dy ufudd-dod drud;*

*er dy anrhydedd a'th ogoniant, sy'n byw a theyrnasu yn awr gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, un Duw, byth bythoedd. Amen.*